CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener yr 8fed o Fawrth 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Ken Griffiths, Aled Rees, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is - Gadeirydd James Brunton. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Meirion Roberts.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 19 o Ionawr 2024

   ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'i eilio gan Cyng William Rees.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r ffordd at Cefn Caer, a'r cadarnhad nad oeddent am wneud unrhyw waith ar y safle ar hyh o bryd. Gyda'r ffordd o Cwrt i'r Ynys, byddent yn llenwi'r tyllau gwaethaf, ac yn tario yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
   Roedd Cyng Williams Rees wedi llenwi y bin halen ger y toiledau, gan nad oedd y bin dan sylw yn perthyn i Gyngor Gwynedd**.** Roedd amcangyfrif cost o £50.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf.
   **c) Carafan static Cwm Sylwi, ac ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy** - darllenwyd ymateb diweddaraf Jane Jones, Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth ynglyn a carafan Cwm Sylwi. Roedd siom fod hen scrap, gan gynnwys oil a disel yn cael ei storio mor agos at y nant, a pherygl enfawr o lygredd lawr yn Cwm Sylwi. Roedd angen i'r Parc Cenedlaethol gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Nodwyd mai barn y Cyngor Cymuned oedd na ddylid caniatau Tystysgrif defnydd cyfreithlon.
   **d) Cofrestr Asedau** – adolygwyd y rhestr ers y cyfarfod diwethaf, Diolchwyd i'r Cyng James Brunton am gael eglurhad gyda chomin y Marian, gyda chopi o benderfyniad yn y gofrestr Deddf Cofrestru Comin 1965. Roedd gwrandawiad wedi bod yn Dolgellau ym 1975 yn cadarnhau Cyngor Cymuned Pennal fel perchennog.
   Trafodwyd hefyd Cae Pownd, a oedd ym mherchnogaeth y Cyngor, ac addawodd Cyng James Brunton sicrhau gwaharddiad fel na fyddai neb arall yn medru eu cofrestru.
   Adroddwyd y diweddaraf gyda'r fainc gyhoeddus ger yr arhosfan bws yn Cwrt a oedd wedi diflannu oddiyno. Roedd y Clerc wedi gwneud cais yswiriant, ac hefyd wedi cysylltu gyda'r heddlu, ac wedi cael rhif cofrestru i'r achos. Roedd gwybodaeth wedi ei yrru i'r Cynghorwyr ar y 30 Ionawr. Penderfynwyd ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Rhys Parry i gael mainc o'r newydd gan Birch Plastics, a gwneud cais yswiriant os yn bosib, a thalu yr 'excess o £100' . Byddai angen ei danfon i Esgairweddan.

I grynhoi, adolygwyd y rhestr asedau gan ychwanegu £20k am y Marian, £5k am Cae Pownd, a £1500 am y ddau defibrillator (gweler isod) Ar ol ychwanegu hyn, byddai'r cyfanswm felly yn £54,000.

e) **Difibrillators** – adroddodd y Clerc y diweddaraf, a chyfarfod gafwyd gyda Thomas Hughes bore dydd Mawrth 23ain Ionawr, pryd roedd Cyng Rhys Parry, Aled Rees a'r Clerc yn bresennol. Roedd Thomas wedi benthyg defib dros dro i safle ger y toiledau, ac wedi ail-edrych ar un Cwrt, ac wedi archebu pads newydd. Cytunwyd ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Will Rees i gael hyn ar gost o £75.60, ac y gellir eu danfon i Penmaendyfi. Dywedodd Cyng Ken Griffiths y byddai yn dileu y 'permanent marker' ar y cabinet sydd ger y toiledau er mwyn sicrhau fod y defib ar gael. Hefyd cytunwyd i symund ymlaen i gael defibrillator o'r newydd i safle ger toiledau Pennal mor fuan a phosib, a byddai'r Clerc yn trefnu. Nodwyd y byddai amcangyfrif y gost yn £1500.

f) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – amlinellwyd yr angen I gael cynllun hyfforddiant, a byddai'r Clerc yn paratoi a'I roi ar wefan y Cyngor. Roedd angen I Gynghorwyr gymryd rhan, a byddai manylion y cyrsiau yn cael eu dosbarthu.

g) **Cerbydau wedi eu parcio yn Maesteg** – roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Adra, a'u hatgoffa, ond roedd y broblem yn parhau.

h) **Sedd wag ar y Cyngor** – ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Swyddog Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Gwynedd, ac wedi cael arweiniad gyda'r mater. Roedd hysbyseb wedi ei roi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan yn unol a'r drefn yn gwahodd y cyhoedd roi gwybod os oedd dymuniad cael etholiad. Ni chafwyd unrhyw gais I law Cyngor Gwynedd, a darllenwyd y cadarnhad. Roedd y mater yn nwylo y Cyngor Cymuned yn awr I gyfethol, ac roedd hysbyseb wedi ei pharatoi a'I rhoi ar y wefan ac ar ddau hybysfwrdd. Byddai modd ymdrin a hyn yn y cyfarfod nesaf.

## 5. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

## 6. Materion Cyllid.

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri cyfredol £7641.31 , a Cyfri Cadw £2631.05. (28 Chwefror 2023). Nodwyd nad oedd siec cyfraniad yr Urdd (£50) wedi ei chyflwyno.
Yn y cyswllt hyn, nodwyd yr angen I gael gwybodaeth y cyfrifon ar-lein, a rhoddwyd caniatad I'r Clerc gysylltu gyda Banc Barclays i gychwyn y broses yma.

b) Nodwyd derbyn £2035 yn dilyn claddu y diweddar Hywel Evans, a £121 am ail-osod beddfaen Margaret Elinor Williams

c) Ar gynnig Cyng Rhys Parry a'I eilio gan William Rees, talwyd cydnabyddiaeth y Clerc am y chwarter olaf, sef £499.99 a HMRC £125, yngyd a chostau am y flwyddyn o £500 fel cytunwyd.

d) Ar gynnig Cyng William Rees a'I eilio gan Ken Griffiths, cytunwyd I dalu anfoneb EW Owen a'i chwmni am waith PAYE cyflog y Clerc am y flwyddyn, sef £228, a oedd hefyd yn cynnwys cysylltu gyda y Pension Regulator ynglyn a dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor fel cyflogwr o ran optio allan o'r 'auto enrolment'

e) Adroddodd y Clerc yn llawn am anfoneb gan Archwilio Cymru am y flwyddyn 2021-22 am swm o £1490. Roedd y Clerc wedi gohebu gyda'r archwilydd I gael eglurhad llawn am swm yr anfoneb, a oedd yn ymddangos yn uchel iawn. Darllenwyd yn llawn yr eglurhad, a sut yr oeddent yn cyrraedd at y swm yma. Ar gynnig Cyng Aled Rees, a'I eilio gam William Rees, cytunwyd yn unfrydol I'w dalu.
f) Roedd yn cais am arian, sef gan Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd. Penderfynwyd peidio cyfrannu, gan fod yna arferiad I gyfrannu I Glwb lleol Bryncrug pan fyddai yna gais I law.
g) Cadarnhawyd benodiad Uned Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd I wneud yr archwilydd mewnol unwaith eto, a byddai'r Clerc yn danfon llythyr.

7. **Gohebiaeth.**

**Cynllun rhannu cartref Cyngor Gwynedd –** darllenwyd e-bost am y diweddaraf, a rhoddwyd poster i fynny yn y Ganolfan.

8. **Unrhyw fater arall.**

a) Adroddwyd fod angen tocio gwrych (coed bambw) a oedd yn gorchuddio ger Tainewyddion.

b) Cadarnhwyd enw Aled Evans I dorri gwair y fynwent eto eleni, a byddai'r Clerc yn cysylltu ag ef. Byddai Cyngor Gwynedd yn torri gwair y Marian a'r Cae chwarae yn ol yr arfer.

c) Adroddodd Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) am gynnydd o 9.54% yn treth Cyngor Gwynedd am 2024-25, ac yn ogystal a hyn, roedd perygl o doriadau.

d) Roedd cwynion I law am y junction T lle roedd yr A493 o Bennal yn cyfarfod y ffordd newydd dros y bont ar yr A487. Roedd sylwadau cryf fod y tro am Bennal yn berygl, ac roedd yna bryder am ddiogelwch defnyddwyr y ffordd. Roedd siom fod y ffordd wedi ei chynllunio yn y ffordd yma, a gofynnwyd I'r Clerc ddanfon gair cryf at Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

e) Roedd yna ychydig o waith ar bargod/peipiau y toiled,ac angen sylw Cyngor Gwynedd. Trafodwyd y gost uchel o gynnal y toiled ar y Cyngor Cymuned, a gofynnwyd a oedd modd cymharu hyn efo sefyllfaoedd tebyg. Trafodwyd yn gyffredinol syniadau ar gyfer y dyfodol.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL Nos Wener y 17eg o Fai 2024 yn y Ganolfan am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.20pm.